Arolygiaeth Prawf EF

# Safonau Arolygu ar gyfer Gwasanaethau troseddau ieuenctid

Mai 2021

Yn dod i rym o fis Gorffennaf 2021 ymlaen

# 1. Darpariaeth sefydliadol

## *1.1 Llywodraethu ac arweinyddiaeth*

**Mae dulliau llywodraethu ac arweinyddiaeth y timau troseddau ieuenctid yn cefnogi ac yn hyrwyddo’r gwaith o ddarparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn.**

### 1.1.1 A oes gweledigaeth a strategaeth leol effeithiol ar gyfer darparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?

a) A yw Bwrdd Rheoli’r Timau Troseddau Ieuenctid yn pennu’r cyfeiriad a’r strategaeth ar gyfer y Timau, gan flaenoriaethu ansawdd y gwasanaeth a glynu wrth y sylfaen dystiolaeth?

b) A yw’r weledigaeth a’r strategaeth ar gyfer y Timau Troseddau Ieuenctid yn rhoi sylw i ystyriaethau amrywiaeth ac yn nodi amcanion cydraddoldeb?

c) A yw Bwrdd Rheoli’r Timau Troseddau Ieuenctid yn cynnwys yr holl bartneriaid statudol a phartneriaid anstatudol lle byddai’r rhain yn ychwanegu gwerth?

d) A yw aelodau Bwrdd Rheoli’r Timau Troseddau Ieuenctid yn chwarae rhan weithredol yn eu presenoldeb a’u cyfranogiad, gan gydnabod y cyfraniad y mae eu hasiantaeth nhw eu hunain yn ei wneud i’r Timau?

e) A yw Cadeirydd y Bwrdd Rheoli'r Timau Troseddau Ieuenctid yn ymgysylltu'n dda, a chanddo ddealltwriaeth ddigonol o waith y Timau?

f) A yw Bwrdd Rheoli’r Timau Troseddau Ieuenctid yn cynnwys barn plant yng ngweledigaeth a strategaeth leol y Timau?

g) A oes trefniadau llywodraethu effeithiol a chynlluniau cyflawni clir sy’n trosi’r weledigaeth a’r strategaeth yn oruchwyliaeth achosion effeithiol?

h) A yw effaith y strategaeth ar gyflawni yn cael ei monitro a’i hadolygu’n rheolaidd?

### 1.1.2 A yw’r trefniadau partneriaeth yn cefnogi’r gwaith o ddarparu gwasanaethau’n effeithiol?

a) A yw aelodau Bwrdd Rheoli’r Timau Troseddau Ieuenctid yn eiriol dros waith y Timau yn eu swyddogaethau ehangach eu hunain?

b) A yw trefniadau partneriaethau’r Timau Troseddau Ieuenctid yn hwyluso’r gwaith o gyflawni gwaith gweithredol effeithiol?

c) Ydy staff yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau o fewn trefniadau’r bartneriaeth, a’r hyn y maent yn atebol amdano?

d) A yw Bwrdd Rheoli’r Timau Troseddau Ieuenctid yn mabwysiadu dull bwriadol, strategol a gwybodus o ddiwallu anghenion amrywiol?

e) A yw partneriaethau strategol lleol perthnasol eraill yn rhoi blaenoriaeth i waith i gefnogi ymatal ac atal niwed, gan gefnogi integreiddio â gwasanaethau ehangach i blant?

### 1.1.3 A yw arweinyddiaeth y Timau Troseddau Ieuenctid yn cefnogi’r gwaith o ddarparu gwasanaethau’n effeithiol?

a) A yw tîm arwain y Timau Troseddau Ieuenctid yn darparu cyswllt effeithiol â’r Bwrdd Rheoli?

b) A yw tîm arwain y Timau Troseddau Ieuenctid yn cyfleu gweledigaeth a strategaeth y Timau Troseddau Ieuenctid yn effeithiol i staff a rhanddeiliaid?

c) A yw tîm arwain y Timau Troseddau Ieuenctid yn cyflawni ac yn gweithredu'r weledigaeth a'r strategaeth yn llwyddiannus?

d) A yw tîm arwain y Timau Troseddau Ieuenctid yn ystyried ac yn mynd i'r afael yn llawn â materion ymatebolrwydd ac anghymesuredd wrth wneud penderfyniadau ar bolisi ac ymarfer?

e) Ydy tîm arwain y Timau Troseddau Ieuenctid yn hyrwyddo bod yn agored, herio'n adeiladol a chynnig syniadau?

f) A yw'r tîm arwain yn deall y risgiau i'r gwasanaeth yn ddigonol, gyda mesurau lliniaru a rheolaethau priodol ar waith?

## *1.2 Staff*

**Mae staff yn y Timau Troseddau Ieuenctid wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i bob plentyn.**

### 1.2.1 A yw lefelau staffio a llwyth gwaith yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel i bob plentyn?

a) A yw'r lefelau staffio'n ddigonol?

b) A yw lefelau staffio'n cael eu cynllunio a'u hadolygu i fodloni'r gofynion sy'n newid a phroffiliau achosion?

c) A yw llwythi gwaith ymarferwyr a rheolwyr yn rhesymol, o ystyried proffil yr achosion a'r amrywiaeth o waith a wneir?

d) A yw llwythi gwaith yn cael eu rheoli'n weithredol?

e) A oes strategaeth effeithiol i gynnal ansawdd y ddarpariaeth yn ystod cyfnodau o absenoldebau sydd wedi'u trefnu a heb eu trefnu?

### 1.2.2 A yw sgiliau staff y Timau Troseddau Ieuenctid yn cefnogi`r gwaith o ddarparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel i bob plentyn?

a) A yw'r gweithlu'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth leol yn ddigonol ac yn darparu'r sgiliau i ddiwallu anghenion amrywiol?

b) A ddyrennir achosion i staff sydd â'r cymwysterau a/neu'r profiad priodol?

c) A oes strategaeth briodol ar waith i nodi a datblygu potensial staff unigol i gefnogi cynllunio olyniaeth?

### 1.2.3 A yw goruchwylio gwaith yn cefnogi darpariaeth a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel?

a) A yw'r staff yn derbyn goruchwyliaeth effeithiol i wella ansawdd y gwaith gyda phlant?

b) A oes rhaglen gynefino effeithiol ar gyfer staff newydd sy'n rhoi sylw i faterion amrywiaeth ac sy'n hygyrch i bawb?

c) A yw'r broses arfarnu'n cael ei defnyddio'n effeithiol i sicrhau bod staff yn gymwys i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel?

d) A roddir digon o sylw i nodi a mynd i'r afael â pherfformiad gwael?

**1.2.4 A yw'r trefniadau ar gyfer dysgu a datblygu yn gynhwysfawr ac yn ymatebol?**

a) A yw'r Timau Troseddau Ieuenctid yn nodi ac yn cynllunio ar gyfer anghenion dysgu'r holl staff?

b) A yw'r Timau Troseddau Ieuenctid yn darparu digon o fynediad at hyfforddiant mewn swydd i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel?

c) A yw'r Timau Troseddau Ieuenctid yn hyrwyddo ac yn gwerthfawrogi diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus?

d) Ydy staff o bob cefndir yn cael cyfle cyfartal am ddyrchafiad, gwobrwyo a chydnabyddiaeth?

**1.2.5 A yw rheolwyr yn rhoi digon o sylw i ymgysylltu â staff?**

a) Ydy'r staff wedi'u hysgogi i gyfrannu at y gwaith o ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel?

b) A roddir sylw priodol i fonitro a gwella lefelau ymgysylltu â staff?

c) A yw rheolwyr yn cydnabod ac yn gwobrwyo gwaith eithriadol?

d) A roddir sylw priodol i ddiogelwch a llesiant staff, yn ogystal â meithrin cydnerthedd staff?

e) A wneir addasiadau rhesymol ar gyfer staff yn unol â gofynion statudol, amrywiaeth ac amgylchiadau personol?

## *1.3 Partneriaethau a gwasanaethau*

**Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael, sy'n golygu bod modd cynnig darpariaeth bersonol ac ymatebol i bob plentyn.**

**1.3.1 A oes dadansoddiad cyfredol a digon cynhwysfawr o broffil plant, a ddefnyddir gan y Timau Troseddau Ieuenctid i ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u targedu'n dda?**

a) A oes dadansoddiad strategol a gweithredol cyfredol o'r anghenion ymatal a gyflwynir gan y plant?

b) A yw'r dadansoddiad yn rhoi digon o sylw i ffactorau diogelwch a llesiant, a'r risg o niwed?

c) A yw'r dadansoddiad yn rhoi digon o sylw i ffactorau amrywiaeth a materion anghymesuredd?

d) A oes dadansoddiad digonol o batrymau lleol dedfrydu a mathau o droseddau?

e) A yw'r dadansoddiad yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i ddylanwadu ar ddarparu gwasanaethau?

f) A yw'r dadansoddiad yn cynnwys barn plant a theuluoedd am y gwasanaethau a dderbyniant?

**1.3.2 A yw partneriaeth y Timau Troseddau Ieuenctid yn darparu'r nifer, yr amrywiaeth a'r ansawdd o wasanaethau ac ymyriadau sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion pob plentyn?**

a) A oes mynediad at y gwasanaethau a'r ymyriadau arbenigol a phrif ffrwd cywir i ddiwallu anghenion ymatal plant?

b) A roddir digon o sylw i adeiladu ar gryfderau a gwella ffactorau amddiffynnol?

c) A yw ffactorau amrywiaeth a materion anghymesuredd yn cael sylw digonol yn yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir?

d) A yw ansawdd y gwasanaethau'n cael ei adolygu a'i werthuso, gan gynnwys adolygiad o'r effaith ar grwpiau amrywiol, gyda chamau adfer yn cael eu cymryd lle bo angen?

**1.3.3 A yw trefniadau â phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel?**

a) A oes trefniadau effeithiol gyda phartneriaid a darparwyr i gefnogi ymataliad drwy fynediad at wasanaethau arbenigol a phrif ffrwd?

b) A oes trefniadau effeithiol gyda phartneriaid a darparwyr i gefnogi diogelwch a llesiant plant?

c) A oes trefniadau effeithiol gyda phartneriaid a darparwyr i reoli'r risg o niwed i eraill?

d) A oes trefniadau effeithiol gyda phartneriaid a darparwyr i gefnogi amgylchiadau personol ac anghenion plant o ran amrywiaeth?

e) A yw'r llysoedd yn ddigon ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi opsiynau dedfrydu?

## *1.4 Gwybodaeth a chyfleusterau*

**Mae gwybodaeth brydlon a pherthnasol ar gael, a chyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi dull gweithredu ymatebol, personol o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn.**

**1.4.1 A yw'r polisïau a'r canllawiau sydd ar waith yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan ddiwallu anghenion pob plentyn?**

a) A oes polisïau angenrheidiol ar waith sy'n disgrifio ac yn arwain y gwaith o ddarparu gwasanaethau'n effeithiol?

b) A yw polisïau a chanllawiau'n cael eu cyfleu'n effeithiol i bawb y maent yn berthnasol iddynt?

c) A yw'r staff yn deall sut i gael gafael ar y gwasanaethau iawn gan bartneriaid a darparwyr?

d) A yw polisïau a chanllawiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, gan roi sylw dyledus i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth?

e) A yw prosesau Timau Troseddau Ieuenctid yn cael eu hadolygu'n effeithiol ac yn rheolaidd, gan gynnwys ystyried materion anghymesuredd?

**1.4.2 A yw amgylchedd(au) cyflawni'r Timau Troseddau Ieuenctid yn diwallu anghenion pob plentyn ac yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel?**

a) A yw'r Timau Troseddau Ieuenctid yn darparu ei waith i blant mewn mannau hygyrch?

b) A yw amgylchedd darparu'r Timau Troseddau Ieuenctid yn lle diogel i staff a phlant?

c) A yw amgylchedd cyflwyno'r Timau Troseddau Ieuenctid yn galluogi staff i ymgymryd â gwaith personol priodol ac ymgysylltu'n effeithiol â phlant?

**1.4.3 A yw'r systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan ddiwallu anghenion pob plentyn?**

a) A yw'r systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn galluogi staff i gynllunio, cyflawni a chofnodi eu gwaith yn brydlon, a chael gafael ar wybodaeth yn ôl yr angen?

b) A yw'r trefniadau TGCh yn caniatáu i bartneriaid, darparwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill gael gafael ar yr wybodaeth gywir a'i chyfnewid?

c) A yw'r systemau TGCh yn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu'r wybodaeth reoli angenrheidiol, gan gynnwys gwybodaeth am amrywiaeth?

**1.4.4 A yw'r dadansoddi, y dystiolaeth a'r dysgu'n cael eu defnyddio'n effeithiol i ysgogi gwelliant?**

a) A yw systemau sicrhau ansawdd a pherfformiad yn ysgogi gwelliant?

b) A yw cynlluniau gwella gwasanaeth yn cael eu cefnogi drwy werthuso a datblygu'r sylfaen dystiolaeth sylfaenol?

c) A oes prosesau ar waith i sicrhau bod y Timau Troseddau Ieuenctid yn dysgu o'r pethau sy'n mynd o chwith?

d) A yw barn y plant, eu rhieni neu eu gofalwyr, a rhanddeiliaid allweddol eraill yn cael eu ceisio, eu dadansoddi a'u defnyddio i adolygu a gwella effeithiolrwydd gwasanaethau?

e) A yw'r Timau Troseddau Ieuenctid yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am amrywiaeth i ysgogi gwelliant?

f) Lle bo angen, a yw camau'n cael eu cymryd yn brydlon ac yn briodol mewn ymateb i archwiliad?

g) A yw'r dysgu'n cael ei gyfathrebu'n effeithiol?

# 2. Datrysiadau yn y llys

## *2.1 Asesu*

**Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.**

### 2.1.1 A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?

a) A oes dadansoddiad digonol o ymddygiad troseddol, gan gynnwys agwedd y plentyn tuag at droseddu a'r hyn sy'n ei gymell?

b) A yw'r asesiad yn dadansoddi materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol?

c) A yw'r asesiad yn ystyried amgylchiadau personol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?

d) A yw'r asesiad yn defnyddio gwybodaeth a ddelir gan asiantaethau eraill?

e) A yw'r asesiad yn canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau diogelu'r plentyn?

f) A yw'r asesiad yn dadansoddi'r prif rwystrau strwythurol sy'n wynebu'r plentyn?

g) A roddir digon o sylw i ddeall lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid, a'i debygolrwydd o ymwneud â datrysiad y llys?

h) A yw'r asesiad yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol?

i) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn ei asesiad, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried?

### 2.1.2 A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?

a) A yw'r asesiad yn nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risgiau i ddiogelwch a llesiant y plentyn?

b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol?

c) A yw'r asesiad yn dadansoddi rheolaethau ac ymyriadau i hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn?

### 2.1.3 A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?

a) A yw'r asesiad yn nodi ac yn dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i eraill gan y plentyn, gan gynnwys nodi pwy sy'n wynebu risg a natur y risg honno?

b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad ac euogfarnau blaenorol, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol?

c) A yw'r asesiad yn dadansoddi rheolaethau ac ymyriadau i reoli a lleihau i'r eithaf y risg o niwed a achosir gan y plentyn?

## *2.2 Cynllunio*

**Mae’r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn holistaidd ac yn bersonol, ac mae’n cynnwys yn weithredol y plentyn a’i rieni neu ofalwyr.**

### 2.2.1 A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?

a) A yw'r gwaith cynllunio’n nodi’r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i'r amserlenni sydd ar gael a’r angen am ddilyniant?

b) A yw’r gwaith cynllunio yn mynd i’r afael â materion sy’n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol?

c) A yw’r gwaith cynllunio’n rhoi digon o sylw i amgylchiadau personol y plentyn, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?

d) A yw’r gwaith cynllunio’n ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn yn ddigonol, ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu’r rhain yn ôl yr angen?

e) A yw’r gwaith cynllunio’n rhoi digon o sylw i lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid, ac yn ceisio datblygu’r rhain yn ôl yr angen?

f) A yw’r gwaith cynllunio yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau’r dioddefwyr?

g) A yw’r plentyn a’i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y broses gynllunio, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried?

### 2.2.2 A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw’r plentyn yn ddiogel?

a) A yw'r gwaith cynllunio’n hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn, ac yn mynd i’r afael yn ddigonol â'r risgiau?

b) A yw’r gwaith cynllunio’n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny’n briodol, ac a oes digon o gysondeb â chynlluniau eraill (ee cynlluniau amddiffyn plant neu gynlluniau gofal) sy’n ymwneud â’r plentyn?

c) A yw’r gwaith cynllunio’n nodi’r rheolaethau a’r ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn?

d) A yw’r gwaith cynllunio’n nodi trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli’r risgiau hynny sydd wedi’u nodi?

### 2.2.3 A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

a) A yw’r gwaith cynllunio’n hyrwyddo diogelwch pobl eraill, ac yn rhoi sylw digonol i ffactorau risg o niwed?

b) A yw’r gwaith cynllunio’n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny’n briodol?

c) A yw’r gwaith cynllunio yn mynd i’r afael ag unrhyw risgiau a phryderon penodol sy’n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl?

d) A yw’r gwaith cynllunio’n nodi’r rheolaethau a’r ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch pobl eraill?

e) A yw’r gwaith cynllunio’n nodi trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli’r risgiau hynny sydd wedi’u nodi?

### *2.3 Gweithredu a darparu*

**Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu.**

#### 2.3.1 A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?

a) Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i ddilyniant a'r amserlenni sydd ar gael?

b) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn rhoi cyfrif am faterion amrywiaeth y plentyn?

c) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr, neu bobl arwyddocaol eraill?

d) A yw darparu gwasanaethau'n adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol?

e) A roddir digon o ffocws ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol â'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr?

f) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau ar ôl goruchwyliaeth?

g) A roddir digon o sylw i annog a galluogi'r plentyn i gydymffurfio â gwaith y Timau Troseddau Ieuenctid?

h) A yw camau gorfodi'n cael eu cymryd pan fo hynny'n briodol?

#### 2.3.2 A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?

a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn?

b) A yw'r gwaith o gynnwys asiantaethau eraill i gadw'r plentyn yn ddiogel yn cael ei gyd-drefnu'n dda?

#### 2.3.3 A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?

a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn ddigon i reoli a lleihau'r risg o niwed?

b) A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl?

c) A yw cyfranogiad asiantaethau eraill o ran rheoli'r risg o niwed wedi'i gyd-drefnu'n ddigonol?

## *2.4 Adolygu*

**Mae adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.**

### 2.4.1 A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?

a) A yw adolygu yn canfod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymataliad?

b) A yw adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol?

c) A yw'r gwaith adolygu yn cynnwys dadansoddiad o ffactorau amrywiaeth, ac yn ymateb iddynt?

c) A yw adolygu'n ystyried yr amgylchiadau personol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?

d) A yw'r gwaith adolygu yn ystyried lefelau cymhelliant ac ymgysylltu ac unrhyw rwystrau perthnasol?

e) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y gwaith o adolygu ei gynnydd a'i ymgysylltu, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried?

f) A yw adolygu yn arwain at addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o'r gwaith i gefnogi ymataliad?

### 2.4.2 A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

a) A yw adolygu yn canfod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â diogelwch a llesiant?

b) A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn?

c) A yw adolygu yn arwain at addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o'r gwaith i hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn?

### 2.4.3 A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

a) A yw adolygu yn canfod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â'r risg o niwed?

b) A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â rheoli'r risg o niwed?

c) A yw adolygu yn arwain at addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o'r gwaith i reoli ac i leihau'r risg o niwed?

# 3. Datrysiadau y tu allan i'r llys

## *3.1 Asesu*

**Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.**

### 3.1.1 A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?

a) A oes dadansoddiad digonol o ymddygiad troseddol, gan gynnwys cydnabyddiaeth y plentyn am ei gyfrifoldeb dros droseddu, a'i agwedd tuag at droseddu a'r hyn sy'n ei gymell?

b) A yw'r asesiad yn dadansoddi materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol?

c) A yw'r asesiad yn ystyried amgylchiadau personol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?

d) A yw'r asesiad yn defnyddio gwybodaeth a ddelir gan asiantaethau eraill?

e) A yw'r asesiad yn canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau diogelu'r plentyn?

f) A yw'r asesiad yn dadansoddi'r prif rwystrau strwythurol sy'n wynebu'r plentyn?

g) A roddir sylw digonol i ddeall lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid?

h) A yw'r asesiad yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol?

i) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn ei asesiad, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried?

### 3.1.2 A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?

a) A yw'r asesiad yn nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risgiau i ddiogelwch a llesiant y plentyn?

b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol?

### 3.1.3 A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?

a) A yw'r asesiad yn nodi ac yn dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i eraill gan y plentyn, gan gynnwys nodi pwy sy'n wynebu risg a natur y risg honno?

b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw asesiadau eraill sydd wedi'u cwblhau, a thystiolaeth arall o ymddygiad y plentyn?

## *3.2 Cynllunio*

**Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn holistaidd ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.**

### 3.2.1 A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?

a) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i'r amserlenni sydd ar gael a'r angen am ddilyniant?

b) A yw'r gwaith cynllunio yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol?

c) A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o sylw i amgylchiadau personol y plentyn, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?

d) A yw'r gwaith cynllunio'n ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn yn ddigonol, ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu'r rhain yn ôl yr angen?

e) A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o sylw i lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid, ac yn ceisio datblygu'r rhain yn ôl yr angen?

f) A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o ystyriaeth i gyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau prif ffrwd ar ôl cwblhau'r gwaith datrys y tu allan i'r llys?

g) A yw'r gwaith cynllunio yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr?

h) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y broses gynllunio, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried?

### 3.2.2 A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

a) A yw'r gwaith cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn, ac yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r risgiau?

b) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol, ac a oes digon o gysondeb â chynlluniau eraill (ee cynlluniau amddiffyn plant neu gynlluniau gofal) sy'n ymwneud â'r plentyn?

c) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys trefniadau wrth gefn angenrheidiol ar gyfer y risgiau hynny sydd wedi'u nodi?

### 3.2.3 A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

a) A yw'r gwaith cynllunio'n hyrwyddo diogelwch pobl eraill, ac yn rhoi sylw digonol i ffactorau risg o niwed?

b) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol?

c) A yw'r gwaith cynllunio yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a phryderon penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl?

d) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys trefniadau wrth gefn angenrheidiol ar gyfer y risgiau hynny sydd wedi'u nodi?

### *3.3 Gweithredu a darparu*

**Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu.**

#### 3.3.1 A yw'r gwaith o ddarparu gwasanaeth yn cefnogi ymataliad y plentyn?

a) Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i ddilyniant a'r amserlenni sydd ar gael?

b) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn rhoi cyfrif am faterion amrywiaeth y plentyn?

c) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr, neu bobl arwyddocaol eraill?

d) A roddir digon o ffocws ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol â'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr?

e) A roddir digon o sylw i annog a galluogi'r plentyn i gydymffurfio â gwaith y timau troseddau ieuenctid?

f) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau prif ffrwd?

#### 3.3.2 A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?

a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?

b) A yw'r gwaith o gynnwys asiantaethau eraill i gadw'r plentyn yn ddiogel yn cael ei ddefnyddio a'i gydlynu'n dda?

#### 3.3.3 A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?

a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn ddigon i reoli a lleihau'r risg o niwed?

b) A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl?

### *3.4 Polisi a darpariaeth ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys*

**Mae gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n hyrwyddo amrywiaeth ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy.**

**3.4.1 A oes polisi ar waith ar gyfer darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys sy'n hyrwyddo dargyfeirio priodol ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy?**

a) A oes protocol clir ar y cyd ar waith gyda'r heddlu, sy'n nodi polisi ac arferion datrysiadau y tu allan i'r llys y cytunwyd arnynt yn lleol, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar y cyd ac y gellir eu hamddiffyn?

b) A yw'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys wedi'u diffinio'n glir ac yn briodol eang er mwyn gallu defnyddio disgresiwn ar yr un pryd ag osgoi ymestyn y rhwyd yn amhriodol?

c) A yw'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn cynnwys proses uwchgyfeirio sy'n osgoi gorddefnyddio datrysiadau penodol yn amhriodol?

d) A yw'r polisi'n nodi'r gwahaniaethau penodol a sylweddol rhwng penderfyniadau cymunedol a datrysiadau ffurfiol y tu allan i'r llys?

e) A oes trefniadau wedi'u gwneud i sicrhau bod plant yn cael eu dargyfeirio'n weithredol ac yn gyson i'r gwasanaethau gofal a chymorth mwyaf priodol?

f) A yw'r polisi datrysiadau y tu allan i'r llys yn disgrifio sut y rhoddir sylw i anghenion amrywiaeth?

g) A yw'r trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel?

h) A yw'r trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau diogelwch pobl eraill?

**3.4.2 A yw darpariaeth ar gyfer datrysiad y tu allan i'r llys yn hyrwyddo dargyfeirio ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy?**

a) A oes panel datrysiadau y tu allan i'r llys neu ddull addas arall o wneud penderfyniadau ar y cyd sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan y Tîm Troseddau Ieuenctid, yr heddlu a gofal cymdeithasol o leiaf?

b) A yw'r panel datrysiadau y tu allan i'r llys neu'r broses gwneud penderfyniadau'n cefnogi dargyfeirio amserol ac effeithiol?

c) A oes proses uwchgyfeirio glir ac effeithiol ar waith pan nad yw'r panel datrysiadau y tu allan i'r llys neu'r broses gwneud penderfyniadau yn gallu sicrhau consensws?

d) A oes trefniadau ar waith i sicrhau bod datrysiadau y tu allan i'r llys yn cael eu rhoi ar waith yn gyson mewn modd amserol a chadarn?

e) A oes amrywiaeth eang o ymyriadau datrysiadau y tu allan i'r llys ar gael sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac sy'n hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i blant?

f) A roddir digon o sylw i gydymffurfio ag amodau a'u gorfodi lle bo hynny'n briodol?

g) A yw'r ddarpariaeth yn rhoi digon o sylw i gadw plant yn ddiogel?

h) A yw'r ddarpariaeth yn rhoi digon o sylw i gadw pobl eraill yn ddiogel?

**3.4.3 A yw'r polisi a'r ddarpariaeth ar gyfer gwneud datrysiadau y tu allan i'r llys yn cael eu hasesu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a chynnal cysondeb â'r sylfaen dystiolaeth?**

a) A yw'r ddarpariaeth a'r polisi datrysiadau y tu allan i'r llys yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd?

b) A yw'r gwerthusiad yn cynnwys defnyddio data ac a yw'n seiliedig ar fewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys?

c) A yw'r gwerthusiad yn cynnwys ystyriaeth weithredol i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth?

d) A yw gwerthuso ac adolygu yn nodi ac yn ymateb i newidiadau yn y sylfaen dystiolaeth datrysiadau y tu allan i'r llys?

e) A yw gwerthuso ac adolygu yn arwain at yr addasiadau angenrheidiol i'r ddarpariaeth a'r polisi datrysiadau y tu allan i'r llys?

f) A yw plant a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y gwaith o werthuso ac adolygu'r ddarpariaeth a'r polisi datrysiadau y tu allan i'r llys?

### *4.1 Polisi a darpariaeth ailsefydlu*

**Mae gwasanaeth ailsefydlu o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sy'n gadael caethiwed.**

**4.1.1 A oes polisi ailsefydlu ar waith sy'n hyrwyddo gwasanaeth ailsefydlu personol, adeiladol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?**

a) A yw'r polisi ailsefydlu yn nodi'r trefniadau ar gyfer darparu llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gofal iechyd a gwasanaethau llwybr ailsefydlu eraill mewn modd addas ac amserol?

b) A yw'r polisi ailsefydlu yn mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol i ailsefydlu effeithiol gan alluogi datblygu hunaniaeth rhag-gymdeithasol?

f) A yw'r polisi ailsefydlu'n disgrifio sut y rhoddir sylw i anghenion amrywiaeth?

d) A yw'r polisi ailsefydlu yn argymell dull gweithredu ar gyfer cymorth personol sy'n adeiladol, yn seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar y dyfodol?

e) A yw'r polisi ailsefydlu'n nodi'r trefniadau i bartneriaid, darparwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill gael gafael ar yr wybodaeth gywir a'i chyfnewid?

f) A yw'r polisi ailsefydlu yn nodi trefniadau i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel?

g) A yw'r polisi ailsefydlu yn nodi trefniadau i sicrhau diogelwch pobl eraill?

h) A yw'r polisi ailsefydlu yn rhoi sylw i anghenion dioddefwyr?

**4.1.2 A yw'r ddarpariaeth ailsefydlu'n hyrwyddo gwasanaeth ailsefydlu personol, adeiladol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?**

a) A oes darpariaeth llety addas ac amserol ar gael i bob plentyn sy'n gadael y ddalfa?

b) A yw mynediad priodol at wasanaethau eraill, gan gynnwys addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a gofal iechyd, ar gael i bob plentyn sy'n gadael y ddalfa?

c) A roddir digon o sylw i ddiwallu anghenion amrywiaeth yn y ddarpariaeth ailsefydlu?

d) A yw'r dull o ddarparu ailsefydlu yn seiliedig ar dystiolaeth?

e) A yw staff wedi'u hyfforddi'n benodol i asesu, nodi, cynllunio ac ymateb i anghenion ailsefydlu pob plentyn?

f) A yw'r ddarpariaeth ailsefydlu'n rhoi digon o sylw i gadw plant yn ddiogel?

g) A yw'r ddarpariaeth ailsefydlu'n rhoi digon o sylw i gadw pobl eraill yn ddiogel?

h) A yw'r ddarpariaeth ailsefydlu'n rhoi sylw i anghenion dioddefwyr?

**4.1.3 A yw'r polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu'n cael eu hasesu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a chynnal cysondeb â'r sylfaen dystiolaeth?**

a) A yw'r ddarpariaeth a'r polisi ailsefydlu'n cael eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd?

b) A yw'r gwerthusiad yn cynnwys defnyddio data ac a yw'n seiliedig ar fewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â darparu elfennau ailsefydlu?

c) A yw'r gwerthusiad yn cynnwys ystyriaeth weithredol i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth?

d) A yw gwerthuso ac adolygu yn nodi ac yn ymateb i newidiadau yn y sylfaen dystiolaeth ailsefydlu?

e) A yw gwerthuso ac adolygu yn arwain at yr addasiadau angenrheidiol i’r ddarpariaeth a’r polisi ailsefydlu?

f) A yw plant a’u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y gwaith o werthuso ac adolygu'r ddarpariaeth a'r polisi ailsefydlu?